# Cenn@d

HYDREF 08 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 241

## Pennod newydd i adferiad yng Nghymru

Mae'r Stafell Fyw (the Living Room), cymuned adfer arloesol, yn falch o gyhoeddi ei lansiad swyddogol dan ofal ei mam elusen, y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Cynhelir y digwyddiad ddydd Sul, 26 Hydref, am 2:00yp yn Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR, gan nodi carreg filltir bwysig i'r mudiad adferiad yng Nghymru.

Bydd y lansiad yn dod â phobl, teuluoedd a chymunedau ynghyd i ddathlu adferiad, gwydnwch a dechreuadau newydd. Bydd gwesteion yn cael eu hysbrydoli gan straeon pobl sydd wedi trawsnewid eu bywydau, ac yn cael clywed am gynlluniau cyffrous yr elusen ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y gwasanaeth, cynhelir te parti dathlu am 3:00yp.

Bydd y diwrnod yn dod i ben gyda Chymanfa Ganu fawreddog yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, yn dechrau am 8:00yh, lle bydd lleisiau'n uno mewn cân i nodi gobaith, iachâd ac ysbryd cymunedol.

Mae'r lansiad hefyd yn cyd-fynd â 14eg Sul Adferiad Cymru, diwrnod cenedlaethol sy'n cydnabod, mewn sawl ffordd, fod pawb yn adfer o rywbeth neu'i gilydd. Dywedodd Wynford Ellis Owen, sylfaenydd y Stafell Fyw a phrif weithredwr y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, "Mae'r Stafell Fyw wastad wedi bod yn fwy na phrosiect – mae'n deulu, yn lle i berthyn, ac yn symbol o obaith. Wrth i ni ailymuno â'n mam elusen, rydym yn benderfynol o barhau â'n cenhadaeth: creu lle diogel a chroesawgar lle gall bywydau gael eu trawsnewid."

Ers bron i bymtheg mlynedd, mae'r Stafell Fyw wedi bod wrth wraidd y mudiad adferiad yng Nghymru, gan gynnig gobaith a bywyd newydd trwy dosturi, cymuned a grymuso i bobl sy'n byw gyda dibyniaeth, eu teuluoedd a'u cefnogwyr.

CARE | Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL ELUSEN AR GYFER DIBYNIAETH, ADFERIAD A GALLUOGI | THE COUNCIL ON ALCOHOL AND OTHER DRUGS THE CHARITY FOR ADDICTION, RECOVERY AND EMPOWERMENT

recovery-council.org
living-room.uk
cynnal.uk



**CYMANFA GANU FAWREDDOG**

**YNG NGHAPEL Y TABERNACL**
**YR AIS CAERDYDD**
**AM 8yh AR NOS SUL 26ain o HYDREF**

i ddathlu agoriad swyddogol y

STAFELL FYW LIVING ROOM · cynnal · LLE I FYW A ROOM TO LIVE

yn eu cartref newydd yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, Caerdydd
ac o dan warchogaeth newydd
**Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL**

**ARWEINYDD: Eilir Owen Griffiths**
**ORGANYDD: David Geoffrey Thomas**
**Côr Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth**
**a**
**Côr Ifor Bach**

### Manylion y digwyddiad:

- Lansiad Swyddogol: Dydd Sul,
  26 Hydref, 2:00yp, Eglwys y Crwys, Caerdydd
- Te Parti Dathlu: 3:00yp
- Cymanfa Ganu: 8:00yh, Tabernacl, Caerdydd

Am ymholiadau'r wasg, cysylltwch â: Wynford Ellis Owen ar wynford@recover-council.org neu 07796464045:

Gwefannau: www.stafell-fyw.uk | www.cyngor-adferiad.org | www.cynnal.uk

'Ni sy'n mynd i ennill' – Souled Out '25 yn y Bala
Tudalen 2

O Gefn Gwlad
Tudalen 4

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
Tudalen 5

# 'Ni sy'n mynd i ennill' – Souled Out '25 yn y Bala



Braf oedd cael dod at ein gilydd eto ganol Awst, yn wynebau hen a newydd, i addoli, dysgu a mwynhau. Eleni, roedd cyfle hefyd i ddiolch yn arbennig i'r Arglwydd am ei ffyddlondeb dros 25 mlynedd o waith Souled Out yn ei ffurf bresenol yng Ngholeg y Bala, ymhlith ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc.



Un o uchafbwyntiau Souled Out eleni oedd clywed pobl ifanc yn tystio i waith a daioni Duw yn eu bywydau. Mewn cyfweliad gyda Carys, dyma Mia yn rhannu sut y daeth hi i adnabod Iesu'n bersonol a'r gwahaniaeth mae hyn wedi'i wneud yn ei bywyd.



Dyma Gareth yn arwain cyfnod o fawl ar ddechrau'r diwrnod, gyda help Delyth, Jo ac eraill yn y band.



Ar noson gyntaf Souled Out, fe wnaeth Joseff Edwards, un o'r siaradwyr, gyflwyno thema'r wythnos – 'Ni sy'n mynd i ennill!' – gan ddechrau'r siwrne drwy'r bennod arbennig y byddem yn edrych arni gyda'n gilydd yn ystod yr wythnos, sef Rhufeiniaid 8.

**Diolch i Emily Cooke am yr adroddiad yma o'i hamser ar y cwrs**

Fe wnes i fwynhau Souled Out yn fawr eleni: y croeso cynnes, ailgysylltu â hen ffrindiau a gwneud rhai newydd.

Thema'r wythnos oedd 'Ni sy'n mynd i ennill' ac fe wnes i wir fwynhau dysgu mwy am fy ffydd wrth gael ein harwain drwy Rhufeiniaid 8 yn ystod y sesiynau. Dyma'r bennod sy'n sôn wrthym am y bywyd sydd i'w gael yn yr Ysbryd, am y gogoniant sydd i ddod ac am fawredd cariad Duw tuag atom yn Iesu Grist. Mi fyddaf i bob amser wrth fy modd yn ein trafodaethau grŵp bach hefyd. (Beth am ddarllen y bennod eich hun a dychmygu hanner cant o bobl ifanc yn mynd drwyddi ac yn ei thrafod efo'i gilydd!)

Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd clywed Cath Woolridge yn siarad un noson. Roedd ei sesiwn yn ysbrydoledig oherwydd y ffordd y cyflwynodd y neges gyda chymaint o dân ac angerdd. Roeddwn i hefyd wrth fy modd yn treulio amser gyda ffrindiau a chael hwyl gyda nhw drwy gydol yr wythnos!



'Roedd yn wych cael hwyl gyda ffrindiau gydol yr wythnos. Dyma rai o'r ieuenctid yn chwarae gemau yn yr haul!'

Byddwn i'n bendant yn argymell mynd i Souled Out lle bynnag ydych chi ar eich siwrne ffydd. Ac yn bersonol, alla i ddim aros i weld pawb eto yn Aduniad Souled Out ym mis Chwefror!

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**

# Croeso i Gymdeithasfa'r Gogledd, Capel y Fron, Dinbych – 14 Hydref

Bydd croeso'n ein disgwyl yng nghyfarfod yr hydref o Gymdeithasfa'r Gogledd a gynhelir eleni yng Nghapel Unedig y Fron a'r Brwcws, Dinbych, ddydd Mawrth, 14 Hydref.

Bydd eisteddiad y bore yn dechrau am 10:30 o'r gloch gyda chroeso i'r cynrychiolwyr ac aelodau'r Gymdeithasfa (blaenoriaid a gweinidogion). Bydd cyfle i glywed am flaenoriaethau EBC ac am gynlluniau ailstrwythuro newydd. Yn ogystal â hynny, ceir cyflwyniad i'r gwaith cenhadol ac ymestyn allan yn lleol a wneir yng ngofalaeth Bro Dinbych dan arweiniad y gweinidog, y Parch. Ddr Andras Iago a'r tîm yno.

Yn eisteddiad y prynhawn am 2 o'r gloch, a fydd yn gyfarfod agored i bawb, fe gawn gyflwyniad gan y Parch. Iwan Ll. Jones ar fywyd Hugh Jones, Maesglasau, Dinas Mawddwy, yr ydym yn cofio eleni am 200 mlwyddiant ei farw yn 1825. Ef oedd awdur yr emyn 'O tyn / y gorchudd yn y mynydd hyn' a bu farw mewn tlodi mawr yn Henllan, gerllaw Dinbych. Bydd cyfle i ganu ei emyn, ac yna i goffáu blaenoriaid a gollwyd ers cyfarfod y gwanwyn a chyn-lywyddion y Gymdeithasfa a'r Gymanfa Gyffredinol a gollwyd yn ddiweddar, sef y Parchedigion W. Gareth Edwards a



Marcus W. Robinson. Bydd cyn-weinidog yr eglwys, y Parch. Hugh Pritchard, Llangefni, yn ein hannerch cyn inni gael ein harwain gan y Llywydd, y Parch. Chris Prew, Porthmadog, i gydgymuno wrth gloi. Yn ystod ei flwyddyn fel Llywydd, bydd yn dda gan Chris gael dychwelyd i'r eglwys lle cafodd ei fagu.

Down ynghyd felly i gael ein hannog yng nghymdeithas ein gilydd a'n hysbrydoli a'n herio i barhau yn ein gwasanaeth i'r Arglwydd yn ein cylchoedd ein hunain.

*HP-D*
(Ysgrifennydd)

Cod post Capel y Fron, Ffordd Rhyl, Dinbych, yw LL16 4RD. Gellir gollwng teithwyr yno, a bydd digonedd o lefydd parcio drwy'r dydd ar gael yn y meysydd y tu ôl i'r capel yn y parc mân-werthu. Ceir mynediad iddyn nhw ger Theatr Twm o'r Nant sydd bron ar waelod Stryd y Dyffryn. (Mae llwybr troed oddi yno at Ffordd Rhyl a'r capel.)

## Diolchgarwch

Diolch i'n cyfaill Norman Closs-Parry yng Ngharmel am weithio'r englyn yma ar gyfer tymor y diolchgarwch eleni. Onid coron ein diolchgarwch yn wir yw cael blas ar ras Duw tuag atom wrth yr allor ym mlwch y capel neu ar ein haelwydydd ein hunain?

Cnydiodd daear weithgarwch – yn dawel
A diwyd mewn gwydnwch
Yn goron diolchgarwch
Gras a blas ger allor blwch.

# Datganiad C21 ar Gasineb Hiliol

Yn wyneb yr amlygu diweddar a fu ar agweddau hiliol o fewn y disgwrs cyhoeddus a gwleidyddol yng ngwledydd Prydain, gwladwriaethau Ewropeaidd ac Unol Daleithiau'r America, ynghyd â thuedd rhai unigolion a grwpiau i gyplysu eu rhagfarnau ag Efengyl Iesu, mae Cristnogaeth 21 yn cyhoeddi'r datganiad canlynol.

Daliwn fod pob person yn gydradd ac yn gyfwerth yng ngolwg Duw ac nad oes unrhyw gyfiawnhad i wahaniaethu rhwng pobl ar sail eu hil, eu tras ethnig, lliw eu croen, eu hiaith na'u diwylliant, eu crefydd na'u cred.

Rydym yn datgan bod yr Ysgrythurau Iddewig a Christnogol, ynghyd â gwerthoedd Efengyl Iesu, yn ei gwneud hi'n gwbl glir mai ein dyletswydd fel Cristnogion yw dangos croeso, lletygarwch a charedigrwydd i ddieithriaid. At hynny, mae dilyn Iesu yn golygu bod disgwyl inni estyn cydymdeimlad, tosturi, trugaredd a chariad at bobl sydd mewn trybini ac sy'n ffoi o sefyllfaoedd enbyd o ryfel, newyn a gormes gwleidyddol.

Mae llawer o'r casineb hiliol a fynegwyd yn ddiweddar wedi ei seilio ar wrthwynebiad i geiswyr lloches yn croesi ffiniau gwladwriaethau drwy ddulliau anarferol. Er hynny, mae agweddau sarhaus a threisgar hefyd yn cael eu mynegi at geiswyr lloches a mewnfudwyr sydd eisoes wedi cyrraedd ein gwledydd, ynghyd â lleiafrifoedd ethnig sy'n sefydlog o fewn ein cymunedau. Mae Cristnogaeth 21 yn ymwrthod yn llwyr â'r agweddau negyddol yma ac yn dal bod agweddau o'r fath yn groes i ddysgeidiaeth Iesu o Nasareth. O'r herwydd, rydym hefyd yn gwrthwynebu'r camddefnydd o symbolau Cristnogol a baneri cenedlaethol i hyrwyddo agendâu hiliol sy'n rhannu pobl yn erbyn ei gilydd.

Mewn byd sy'n gynyddol fudol, credwn y dylai pawb, pwy bynnag y bônt, gael eu trin â chwrteisi, parch ac urddas. Dylai statws mudwyr gael ei benderfynu gan gyfraith gwlad a chyfraith ryngwladol a hynny o fewn fframwaith o hawliau dynol, megis yr hyn a weinyddir dan Ddeddf Hawliau Dynol y DG (1998), y Llys Ewropeaidd ynghylch Iawnderau Dynol a Datganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol.

Dyletswydd Cristnogion yw ceisio sicrhau bod mudwyr, pwy bynnag y bônt, yn cael eu trin yn deg a chyfiawn, gan sicrhau bod modd iddynt gynnal eu hunan-barch fel aelodau cydradd o'r ddynoliaeth. Yn y goleuni hwnnw, cefnogwn bob ymgais i gefnogi mudwyr yn eu hawydd i ddod yn aelodau integredig a defnyddiol o'n cymunedau, megis cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddwn fod heriau economaidd a newid cymdeithasol yn peri rhwystredigaeth i lawer. Fodd bynnag, fel erioed, gwrthwynebwn unrhyw lais, safbwynt neu ideoleg sy'n corddi ymraniadau, yn hyrwyddo casineb, yn creu bychod dihangol neu sy'n tanseilio dynoliaeth unigolion a grwpiau ar sail hil, tras ethnig neu statws mudol. Ymrwymwn i weithio mewn partneriaeth ag unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i wrthsefyll casineb hiliol ac ymgyrchu dros gymod, goddefgarwch a chyfiawnder.

*Cristnogaeth 21*
*30 Medi 2025*

# O Gefn Gwlad

### Hunanoldeb ein crefydd?

Geiriadur Chambers fu'r gynhaliaeth Saesneg i mi erioed, nid Geiriadur Rhydychen, ac y mae'r diffiniad o hunanoldeb ynddo yn un syml iawn, ond yn dweud y cyfan: 'Canolbwyntio ar eich hunan'.

Ie, pwysigrwydd yr hunan! Ac y mae iddo sawl agwedd, wrth gwrs – rhai, weithiau, nad ydym yn eu hystyried yn agweddau ar hunanoldeb ond dyna ydynt. Dyma ddwy enghraifft yn ymwneud ag amser: dod yn hwyr i gyfarfod yr ydych yn cymryd rhan ynddo yw un, a gadael i bawb arall ddisgwyl. Mynd dros amser mewn cyfarfod yw un arall, ac y mae gen i sawl enghraifft o hynny. Bûm yn gadeirydd y Pwyllgor Llenyddiaeth mewn dwy Eisteddfod Genedlaethol, a'r hyn oedd yn gwneud bywyd yn boen a llanast o raglen y Babell Lên oedd darlithydd yn hawlio mwy na'r amser a roddwyd iddo. Ac mi allwn enwi i chi sawl person cenedlaethol enwog fu'n euog o'r hunanoldeb hwn, a bod yn ddigon haerllug ynglŷn â'r peth hefyd, rai ohonynt – ond wnaf i ddim, heblaw mewn sgwrs bersonol efallai!

Rwy'n nodi'r enghreifftiau hyn i ddangos fod yna agweddau ar hunanoldeb nad ystyriwn, falle, yn ddim byd o'r fath, er mai dyna ydynt. Ac oni all agweddau ar ein crefydd fod yn hynny hefyd? Yn hunanoldeb heb ei sylweddoli?

Bu amser pan ystyrid bywyd da yn y byd hwn yn rhyw fath o warant o fywyd tragwyddol, ac fe gadwodd credu hynny lawer un ar y llwybr cul yn y byd hwn er mwyn ennill y wobr yn y byd a ddaw. A chlywais yn fy ieuenctid ddweud am sawl un – mae hwn a hwn yn haeddu mynd i'r nefoedd.

Erbyn heddiw mae'r pwyslais, a phwyslais pregethu wedi newid, wedi symud o haeddiant yr unigolyn i'r haeddiant a osodwyd gan drefn y cadw a'r aberth ar y groes. Nid sut yr ydym yn byw sy'n bwysig ond beth a gredwn. Ac yn aml fe ddyfynnir adnod i brofi hynny. Gofiwch chi hanes Paul a Silas yn y carchar yn Philipi a'r daeargryn yn agor y drysau a datod eu rhwymau? Dyna lle y ceir un enghraifft. Gofynnodd ceidwad y carchar, oedd yn bygwth lladd ei hun, beth oedd yn rhaid iddo'i wneud a dyma'r ateb a gafodd: 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi' (Actau 16:25 ymlaen).

Addoli felly yw mynegiant o'n cred bersonol yn yr Iesu a chydnabod y 'ffordd a drefnwyd cyn bod amser', cydnabod hefyd ein ffaeleddau ein hunain gan mai pechaduriaid ydym, ie, pechaduriaid bron cyn ein bod, ac mai crefydd bersonol sy'n bwysig. Anghofiwch y gred fod yr eglwys yn bod er mwyn y rhai sy tu allan iddi, a chanolbwyntiwch arnoch eich hun. Ac mae digon o emynau ar gael ar gyfer addoli felly, yn enwedig rhai sy'n cynnwys y geiriau 'rwyf' a 'mi' a 'fy': '**Rwyf** yn hiraethu am …', 'Arglwydd, rhaid **i mi** gael bywyd', 'O arwain **fy** enaid i'r dyfroedd'. Chwiliwn am ffurfiau personol y ferf hefyd ac fe gawn ddigon ohonyn nhw. Credwn a byddwn yn saff o fywyd tragwyddol 'ym mynwes glyd yr addfwyn Oen'.

A minnau'r oed ydw i, mae'n siŵr y dylswn fod yn paratoi fy hun ar gyfer fy niwedd, a gobeithio am y bywyd tragwyddol hwnnw. Pam nad ydw i'n gwneud hynny, 'te'? Ai am fy mod yn gweld y cyfan hyn fel math o hunanoldeb? Ie, i raddau yn sicr, ac am fy mod hefyd yn poeni llawer mwy am ddyfodol fy nheulu yn y byd hwn na'm dyfodol fy hun yn y byd a ddaw. Mae gen i naw o orwyrion a gorwyresau, a degfed ar y ffordd, ac mae'r byd y maen nhw yn ei wynebu, greda i, yn llanast. Llanast ar y ffrynt cenedlaethol gyda'r peryg o drydydd rhyfel byd yn bosibilrwydd real, llanast ar y ffrynt cymdeithasol lle mae trais yn bodoli hyd yn oed yn ein cymunedau lleiaf. Gwasanaethau'n brwydro i gadw rhyw fath o reolaeth ar ddarparu addysg, gofal, sicrwydd a chwarae teg i bawb.

Y mae rhai yn ein heglwysi sy'n gosod y cyfrifoldeb yn gyfan ar Dduw, yn credu mai ganddo fo mae'r ateb i bob problem. Ie, falle, ond trwyddon ni, does bosib. Dydi o ddim i'w weld yn gwneud dim ar ei ben ei hun, ydi o? Onid yw'n bryd i ni felly wneud ei waith yn hytrach na gofalu amdanom ein hunain? Y mae llawer sy'n gwneud hynny, a diolch amdanynt.

Na, dydw i ddim, rhaid imi gyfadde, yn malio dim beth a ddigwydd i mi pan fyddaf farw, ond rwy'n poeni fel y dywedais am fy nheulu, y rhai ddaw ar fy ôl. Poeni sut y bydd hi arnyn nhw a pha fath o fyd gawn nhw i fyw ynddo. Ond mi allech ddadlau mai agwedd arall ar hunanoldeb yw hynny hefyd!

*Elfyn Pritchard*

# Merched Cymru dros Heddwch 2025

'Siarad yr ydym fel Merched Cymru – plant i genedl na fyn gadw dig at na gwlad na phobl, eithr sydd â'i dyhead am ddyfod dydd cydweithrediad ac ewyllys da.' (Deiseb Heddwch Merched 1923–4)

Dros ganrif ers Deiseb Heddwch Merched 1923–4, dyhëwn ninnau, ferched Cymru'r unfed ganrif ar hugain, ddatgan cefnogaeth i'n cyd-ferched a'u teuluoedd sy'n wynebu gormes rhyfel. Ar 21 Medi 2025 – Diwrnod Heddwch Rhyngwladol, dechreuwyd ymgyrch fenywaidd i godi ymwybyddiaeth a galw am heddwch. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys ympryd genedlaethol a digwyddiadau heddwch gan ferched ym mhob rhan o Gymru.

I gefnogi'r gweithredu heddychlon yn ein cymunedau, rydym yn casglu enwau merched Cymru sydd eisiau galw am heddwch. Trwy arwyddo, rydych yn gwneud datganiad ar y cyd â merched Cymru eich bod yn gwrthwynebu rhyfel a hil-laddiad gan alw ar Lywodraeth San Steffan i weithredu.

Am fwy o fanylion a ddiweddariadau, dilynwch: Merched Cymru Dros Heddwch ar Facebook neu merched_dros_heddwch ar Instagram.

## Deiseb Merched Cymru Dros Heddwch 2025

Rhyw ynni sy'n yr enwau – mae 'na wres,
mae 'na rym di-arfau;
cawn hanes ein cyn-neiniau
yn broc i ddyfalbarhau.

*Annes Glyn*





## Heddwch, heddiw, 21 Medi 2025

Daw heddwch fel coeden afal crabach
a madarch yn ei chôl,
pwll dŵr glaw lle bu cangen
a phen gwalltog yn llawn afalau surion
yn sicr o'u bywyd, o'u haul, o'u hawl i fyw.

Daw heddwch fel esiampl heddiw
wrth afon drom. Ei chorff
yn ei chrwman ar ôl cario gormod,
ei ffedog yn dyllog, ei dweud yn sibrwd.
Cronfa o gynddaredd sydd ynddi am y byd,
ddi-ddysgu, ond ohono mae'n creu afalau,
ac o greu daw heddwch,
yn garpiog, ond fe'i gwelais
heddiw, wedi gwreiddio
mewn cae lleol, yn trio byw.

*Siân Melangell Dafydd*

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Yn Lloegr yn bennaf mae llawer o drafod wedi bod ynglŷn â baneri San Siôr. Yn ogystal â baneri Jac yr Undeb maen nhw wedi dechrau ymddangos ym mhobman, yn aml iawn i ddangos safbwynt sy'n gysylltiedig â phleidiau sy'n dod o ochr dde'r sbectrwm gwleidyddol. Maen nhw'n cynrychioli cenedlaetholdeb sy'n tueddu i fynd law â llaw ag awydd i adfer gwerthoedd Prydeinig ac amheuaeth o bobl dramor, yn enwedig y rhai sydd wedi dod i geisio dechrau bywyd newydd ym Mhrydain.

Yng Nghymru, mae'r ddadl hyd yn oed yn fwy cymhleth. Mae'n hen arfer gennym weld y Ddraig Goch yn hedfan ym mhobman, ar ein dillad ac fel bathodyn ar ein ceir. Ydyn ni'n iawn i dderbyn hynny ond ar yr un pryd efallai feirniadu'r llall? A lle rydym yn gweld y Ddraig Goch yn hedfan ochr yn ochr â Jac yr Undeb – beth mae hyn yn ei olygu?

Yn fy marn i, er bod yn rhaid i ni fod yn ofalus, mae gwahaniaeth rhwng y ddau, oherwydd yng Nghymru mae'r Ddraig Goch yn perthyn i bawb – y dde, y chwith, a phawb yn y canol. Ac fel mae'n digwydd, fe ddarllenais i erthygl ddiddorol mewn cylchgrawn Saesneg yn ddiweddar lle roedd yr awdur yn mynnu bod baner San Siôr a Jac yr Undeb yn perthyn i bawb yn Lloegr hefyd. Byddai e'n hoffi gweld y ddwy faner yna'n hedfan uwchben mosgiau, capeli, canolfannau ffoaduriaid, ralis amgylcheddol, gorymdeithiau'r dde a'r chwith, ac yn y blaen.

Beth bynnag yw eich barn, hoffwn i awgrymu ei bod hi'n amser i ni, Gristnogion, feddwl am sut mae pobl yn defnyddio nid y Ddraig Goch a Jac yr Undeb, ond yn hytrach y groes. Yn wreiddiol, arf arteithio a dienyddio oedd y groes – 'tramgwydd' (BCND), 'sarhad' (BNET), 'ffolineb' (BCND) a 'nonsens llwyr' (BNET) yw'r geiriau y mae Paul yn eu defnyddio i ddisgrifio'r groes yn ei lythyr at yr eglwys yng Nghorinth. σκάνδαλον, *skandalon*, yw'r gair Groeg sy'n cael ei gyfieithu fel 'tramgwydd' neu 'sarhad', a dyma wraidd ein gair 'scandal'. Roedd y groes yn gysylltiedig â phobl leiaf, pobl dlotaf y gymdeithas – yn wreiddiol fel arf i gosbi, ond oherwydd Iesu Grist, fel arwydd o faddeuant, gobaith a bywyd newydd i ni, bechaduriaid.





Ond dros y blynyddoedd, mae croes Iesu Grist wedi cael ei gwyrdroi i ddod yn arwydd o gasineb a grym. Meddyliwch am y Croesgadau pan oedd Cristnogion wedi ymddwyn mewn ffordd mor warthus i ladd brodyr a chwiorydd o grefydd wahanol er mwyn ennill tir ac arian. Edrychwch ar y gair 'croes' ar ddechrau'r gair 'Croesgadau'. Cofiwn fod pobl ar hyd y blynyddoedd wedi defnyddio croes y Croesgadau i ddangos eu bod nhw'n casáu pobl Fwslimaidd – a hynny yn enw Iesu Grist oedd wedi ein dysgu i garu pawb, hyd yn oed ein gelynion! Ac yn anffodus mae pobl yn dal i gamddefnyddio'r groes mewn ffordd debyg heddiw.

Mae Ysgrifennydd Amddiffyn yr Unol Daleithiau, Pete Hesgeth, yn enwog am sawl rheswm – yn gynnwys ei datŵ o groes y Croesgadau a'i lyfr *American Crusade.* Mae'r BBC wedi adrodd yn ddiweddar fod sawl aelod o'r grŵp Infidels Motorcycle Club yn gweithio i gwmni diogelwch gyda phobl mwyaf fregus Gaza – ac mae croes y Croesgadau'n ymddangos ar wisg y clwb. Ac os ydych chi wedi gweld lluniau o rali Tommy Robinson yn Llundain, byddwch wedi gweld y groes Gristnogol ym mhobman.

Mae hynny'n sgandal go iawn. Nid oes gan groes Iesu Grist ddim i'w wneud â phŵer, casineb, hiliaeth ac ofn. Mewn gwirionedd, mae'n cynrychioli buddugoliaeth pŵer a doethineb Duw dros ffolineb dynol, cariad dros gasineb, cynhwysiant a chroeso drud dros hiliaeth, a maddeuant a chymod dros ofn. Mae croes Iesu Grist yn perthyn iddo fe, ac i bawb sy'n dod ato mewn cywilydd i gyffesu eu hangen a'u pechod. Dylen ni wneud pob ymdrech i wrthsefyll y defnydd o'r groes i ledaenu casineb a hiliaeth yn lle cariad a chofleidio.

---

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 12 Hydref, am 7.30yh**
Bydd Lowri Morgan ar daith i ddysgu mwy am gelfyddyd a hanes ein ffenestri lliw. Ceir perfformiad gan y tenor Osian Wyn Bowen.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 12 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Noa Evans

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 12 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Jones, NFU, Caernarfon

# Credo Nicea – Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Prydain ac Iwerddon

Dyma'n union yw dyfodol Duw: mae am ailgyfeirio ein stori Gristnogol. Mae'n terfynu gyda gweledigaeth Ioan ar Ynys Patmos, sy'n disgrifio dynolryw wedi ymgasglu mewn addoliad gerbron Duw y tu hwnt i hunaniaethau diwylliannol, ieithyddol, ethnig a llwythol arbennig (Datguddiad 7:9).

Cyfeiria Martin Luther King at y gymdeithas hon o bobl annhebyg i'w gilydd fel y Gymuned Annwyl. Cymuned fyd-eang ydyw sydd wedi ei gwreiddio yn egwyddor Gristnogol cariad, ac wedi ymrwymo i ryddhau'r gorthrymedig trwy feithrin cymdeithas sy'n rhydd o ragfarn a gorthrwm hiliol. Nid cydraddoldeb ***cyfreithiol*** yn unig oedd craidd y weledigaeth hon ond yr alwad i drawsnewid ac alinio calonnau a meddyliau pobl i gofleidio a chydnabod urddas a gwerth hanfodol pob stori ddynol, ac i weld pob person fel un sy'n dwyn delw Duw ac yn deilwng o gariad, urddas a chyfiawnder.

Mae'r Gymuned Annwyl hon yn ategu ffydd yng ngrym trawsffurfiol yr atgyfodiad – metaffor o atgyfodiad o ludw anghyfiawnder i fywyd newydd o gydraddoldeb a chyfiawnder, ac sy'n agor y ffordd tuag at gymod, a ffyniant ein gilydd.

Mae cyfiawnder hiliol yn cynnig gobaith am gael gweld y dyfodol a fwriedir gan Dduw. Addewir dyfodol lle mae clwyfau'r gorffennol yn cael eu trin, a chymunedau'n cael eu cynnal mewn cariad a solidariaeth. Trwy ddatgymalu systemau gorthrwm a mynd i'r afael â gwreiddiau hiliaeth, rydym yn agor ffordd tuag at fyd lle mae cyfiawnder a thegwch yn drechaf. Yn union fel y bydd Cristnogion yn gweddïo am i deyrnas Dduw ddod 'ar y ddaear fel y mae yn y nefoedd', mae tystio dros gyfiawnder hiliol yn fynegiant diriaethol o'r weddi hon. Ymrwymiad ydyw i adeiladu byd sy'n adlewyrchu hanfod teyrnas Dduw – cymdeithas lle mae cariad, cyfiawnder a chydraddoldeb yn teyrnasu'n llwyr.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1 O ystyried y darlleniad o'r Beibl a'r myfyrdod, beth ddaw i'ch meddwl chi pan glywch y term 'Y Gymuned Annwyl'?

2 Pa systemau gorthrymus y tybiwch chi sy'n bodoli yn yr Eglwys heddiw? Sut y dylen ni eu datgymalu?

3 Beth yw'ch gobaith am ddyfodol yr Eglwys?

**Gweddi**

Gariad ddaeth yn gnawd,
Ffynnon Trugaredd a Chyfiawnder
mewn byd sy'n anghyfartal ac mewn poen,
boed i'n gweithredoedd fod yn weddïau.
Ymbiliwn am Shalom, llawnder bywyd i bawb.

Boed i Ysbryd Gwirionedd ein tywys ni
ac Ysbryd Cariad ein rhyddhau ni.
Rho i ni dosturi a dewrder i'n gwneud yn benderfynol
o fod yn oleuadau.
Dymunwn am i bawb weld eu bywyd a'u hurddas yn cael eu hadfer.
Ysbrydola ni i fod yn ernes o fyd heb anghyfiawnder a rhagfarn.
Llunia ni'n sianelau dy gariad a'th dangnefedd.
Boed i afon cyfiawnder a thrugaredd lifo dros ein byd amherffaith,
gan dorri syched eneidiau a dyfrhau tiroedd crasboeth.
Triga ynom, O Ryddhawr, fel y gallwn fod yn lleisiau i'th Air,
er mwyn i'r byd gael Bywyd, Bywyd yn ei holl gyflawnder.
Amen.

Ysgrifennwyd y weddi gan y Gwir Barchedig Anderson Jeremiah

**Dyma'r olaf o'r astudiaethau ar Gredo Nicea. Yr wythnos nesaf byddwn yn dechrau ar y gyfres *Codi'r Llen*.**

# Cyflwyno Pedair Medal Gee ym Mhontrhydfendigaid

Ddydd Sul, 14 Medi, daeth cynulliad da ynghyd i gapel Rhydfendigaid ar gyfer gwasanaeth arbennig i gyflwyno pedair medal Gee i bedair athrawes ymroddedig a gweithgar, sef Jên Ebenezer, Neli Jones (sydd wedi treulio cyfnod o 70 mlynedd fel athrawes ysgol Sul ac yn dal ati hyd heddiw!), Ann Williams a Jean Williams. Cafwyd defosiwn arweiniol gan griw yr Ysgol Sul, gyda Manon Mai Rhys-Jones yn cyfeilio, ac wedi bod wrthi yn y dirgel yn trefnu'r cyfarfod arbennig hwn. Wedi gair gan Aled Davies ar ran y Cyngor Ysgolion Sul, cyflwynwyd y medalau i'r pedair ohonynt. Yn dilyn y cyfarfod cafwyd gwledd wedi ei pharatoi gan rieni a chyfeillion y capel yn neuadd y pentref. Diolch am wasanaeth arbennig y pedair ohonynt.





# Y Parch. Marcus Robinson – hunodd 30 Gorffennaf 2025, yn 70 mlwydd oed

Ganwyd Marcus Wyn Robinson, BD, RN, yn un o ddau o blant i Alan ac Angharad Robinson. Cafodd ei enwi ar ôl Stryd Marcus yng Nghaernarfon, a Chofi go iawn oedd Marcus. Dywedodd y ddiweddar Margaret Rees, cyn-aelod o Gapel Jerusalem, Bethesda, wrthyf, pan oedd hi'n athrawes ar Marcus, y deuai i'r ysgol gyda Beibl yn ei law, ac roedd yn rhaid darllen salm cyn dechrau unrhyw wers. Aeth ymlaen wedyn i Ysgol Syr Hugh Owen ac yna i Brifysgol Aberystwyth a'r Coleg Diwinyddol, lle graddiodd mewn diwinyddiaeth. Dywedodd ei fam wrtho mai'r gwahaniaeth rhwng David ei frawd ac yntau oedd fod David yn ddoctor a bod Marcus fel nyrs yn gofalu am bobl. A dyna fu Marcus erioed. Pobl oedd ei bethau, a bugail oedd o'n bennaf.



Ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1978 a chafodd ei sefydlu yng ngofalaeth Llanberis a Nant Peris, lle cyflawnodd waith clodwiw a llwyddo i lywio'r gwaith anodd o ddwyn y tri chapel Presbyteraidd at ei gilydd yno.

Yn 1982 ymunodd â'r Llynges fel caplan a chafodd ei anfon yn syth i ganol rhyfel y Malvinas. Wedi ugain mlynedd ar y môr, ymddeolodd Marcus cyn iddyn nhw allu ei benodi i swydd uchaf Prif Gaplan y Llynges Brydeinig. Roedd am ddod yn ôl ar dir sych, a phenodwyd ef yn gaplan mewn diwydiant â gofal eglwysi'r Tabernacl, Rhostyllen, ac Acre-fair, ger Wrecsam.

Dychwelodd i Arfon yn 2007 i fugeilio eglwysi'r Cysegr a Chapel y Rhos, ac ychwanegwyd atynt Frynrefail a Chaeathro yn ddiweddarach, lle bu iddo ymddeol yn Hydref 2021.

Yn ei dro, bu'n Ysgrifennydd ac yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, ac roedd yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol rhwng 2019 a 2021 ym mlynyddoedd anodd y pandemig. Roedd y llong bob amser yn ddiogel gyda Marcus wrth y llyw. Traddododd y Ddarlith Davies yn 2024 ar y testun 'Caplaniaeth – hanfodol i fywyd yr Eglwys', darlith feistraidd a dynnodd ar ei brofiad bywyd i gyd. Bu'n Swyddog Ecwmenaidd EBC ac yn Gadeirydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, ac roedd ganddo allu mawr i wrando ac uno pobl mewn pwrpas a gwaith cyffredin. Fe gofiwn am y groes fawr a wisgai ym mhob man ac a ddaeth, ynghyd â'i chwerthiniad iach, ei ganu mawr a pharodrwydd ei gymwynasau a'i gyngor, yn arwyddion ohono, ac yntau'n gallu newid a chodi awyrgylch pob sefyllfa.

Gŵr o ffydd, dewrder a chydymdeimlad oedd Marcus. Soniai'n aml am ei ddyled bersonol o fod dan ddylanwad gweinidog Moriah, Caernarfon, y Parch. John Roberts, Llanfwrog wrth iddo dyfu. (Ef yw awdur yr emyn adnabyddus 'Pan wyf yn teimlo'n unig lawer awr')

Bu'n ddylanwad mawr ei hun ar gynifer o bobl. I mi'n bersonol, roedd yn weinidog ac yn gyfaill oedd yn barod i gynorthwyo, a derbyniais lawer o gynghorion ganddo – Marcus ei hun oedd o ym mhob sefyllfa. Cefais y fraint o wrando ar Marcus pan oeddwn yn aelod yng Nghapel Noddfa, Caernarfon. Un tro, roedd Marcus yn gweinyddu sacrament Swper yr Arglwydd a finnau wedi dod draw ar ôl bod yn yr ysgol Sul gyda'r genod, a'r plant angen dangos yr hyn yr oeddent wedi ei ddysgu gan Llinos Morris. Yna, Marcus yn gofyn i ni gau ein llygaid i weddïo. Yn sydyn, dyma fi'n cael y teimlad y dylwn agor fy llygaid, a sylwi bod un llygad ar agor gan Marcus a'i fys yn dal plât y bara. Yna'n sydyn, dyma fy llygaid yn disgyn ac yn sylwi fod Lois, fy merch ieuengaf, yn trio dwyn y plât am ei bod hi isio tamaid o'r bara. Dwi'n codi ac yn gafael ynddi nes iddo orffen. Wedi mynd ato i ymddiheuro, dyma oedd ateb Marcus, 'Paid â dweud y drefn wrthi nac ymddiheuro, oherwydd fel hyn mae'r Arglwydd Iesu angen i ni fod – yn ysu am fara'r bywyd!' Ac roedd o'n iawn. Fe ddysgodd hynny wers i mi ac mi fuodd yn athro da i mi byth oddi ar hynny.

Cafodd ddylanwad mawr arna i yn fy rôl fel gweinidog yn ei gyn-ofalaeth. Mi fydda i'n colli ein seiadau. Byddai'n aml iawn yn sôn am ffitrwydd. Rwy'n cofio Marcus yn dangos geiriau ar ddrws ei gegin imi: 'God must love calories, because he created so many of them'. Byddaf yn colli ei gyngor pan fydd pethau'n anodd, a bu ei eiriau yn nerth i mi ar ôl colli mam ar ddechrau ar fy ngweinidogaeth.

Pregethodd ei bregeth olaf yn nathliad daucanmlwyddiant Capel Caeathro, a'i destun oedd 'Sylfaen'. Neges Marcus oedd fod gosod sylfaen gadarn i eglwys, sef Iesu Grist, yn bwysig. Ar y sylfaen honno yn unig y mae ein capeli wedi'u hadeiladu. Nododd fod yn rhaid i bob unigolyn hefyd gael Iesu Grist yn sylfaen i adeiladu arni. Iesu Grist y sylfaen ydi'r unig beth y gallwn ni sefyll yn gadarn arno, beth bynnag a ddaw i'n rhan.

Mae'r 'disgybl annwyl' wedi gorffen ei waith yn gostegu'r moroedd ym mywyd nifer ohonom ni ac wedi derbyn ei wobr o gael gweld ei Waredwr.

Fel y dywedodd Marcus, 'Rwyf wedi claddu nifer o bobl sydd heb fyw, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn byw bob munud.'

'Da iawn, was da a ffyddlon ... Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd'.

Diolch, Marcus, a diolch i Dduw amdanat.

*Nerys Griffiths*

# Cyfarfod cyntaf Capel y Bont, Pontypridd

Diolch o galon ichi am eich gweddïau. Fe welodd ein cyfarfod cyntaf dros 30 o bobl yn dod at ei gilydd mewn dwy iaith ac o alluoedd cymysg. Roedd rhai pobl heb fod mewn lle o addoliad ers iddyn nhw fod yn blant, eraill heb fod yn mynd i gapel ers tro, a rhai eraill wedyn wedi symud i'r ardal ac yn edrych am gymdeithas Gristnogol.

Rydym ni i gyd yn falch iawn fod y gwasanaeth cyntaf wedi mynd yn dda ac yn obeithiol am sut y bydd Duw yn symud yn ein plith. Gofynnwn ichi barhau i gofio amdanom yn eich gweddïau wrth i berthnasoedd gael eu ffurfio a'u cryfhau, ac y byddwn fel tîm arwain yn cael y doethineb i wybod pryd a ble mae angen addasu a newid.

*Jess Morgan*




# Dathlu bywyd a gwaith y cerddor Morfydd Llwyn Owen ym Mhontypridd, 10–12 Hydref

Mae'r prosiect hwn yn cael ei hyrwyddo gan Parc Arts, canolfan gelfyddydau fechan sydd wedi'i lleoli yn hen Gapel Presbyteraidd y Parc yn Nhrefforest. A hithau yn ei harddegau, Morfydd Owen, y pianydd, y gyfansoddwraig a'r mezzo soprano arloesol, oedd organydd cyntaf y capel.

Cefnogir yr ŵyl gan Wasanaeth Celfyddydau a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Tref Pontypridd a'r Fenter Iaith. Bydd digwyddiadau eraill fel y Gymanfa Ganu yn cael eu cynnal yng Nghapel y Bont.

Dywedodd Jessica Morgan, Parc Arts, 'Ar ôl llwyddiant yr ŵyl gyntaf y llynedd a chrafu'r wyneb ar waith a stori Morfydd, rydym yn falch o allu ymchwilio'n ddyfnach i'w hanes eleni. Byddwn yn dod â mwy o'i cherddoriaeth yn fyw yn ei thref enedigol ac yn gwahodd y gymuned i sgwrs ynghylch sut y gallan nhw gael eu hannog a'u hysbrydoli gan fenyw leol a ragorodd mewn sawl maes. P'un a ddaethoch chi i'r ŵyl y llynedd ai peidio, bydd yna rywbeth at ddant pawb!'



Nod ail Ŵyl Morfydd, a gynhelir ar 10–12 Hydref mewn sawl lleoliad celfyddydol ar draws Pontypridd, yw aildanio perthynas y dref ag un o'i henwogion, sef Morfydd Llwyn-Owen (1891–1917). Trefnir rhaglen lawn o ddigwyddiadau ar gyfer pob oedran sy'n coffáu etifeddiaeth gerddorol y dref ac i ysbrydoli ei dyfodol creadigol.

Bydd Gŵyl Morfydd yn cynnwys perfformiadau unigryw, amrywiaeth o gerddoriaeth werin a chlasurol, arddangosfeydd, sgyrsiau a gweithgareddau i'r teulu. Cynhelir y digwyddiadau hyn mewn lleoliadau ledled Pontypridd, gan gynnwys y Muni, Amgueddfa Pontypridd, Llyfrgell Pontypridd, Clwb y Bont, Capel y Bont, rhan o Stryd y Felin a chanol tref Pontypridd.

Bydd penwythnos yr ŵyl yn agor unwaith eto gyda gorymdaith cysgodion lampau (*lampshades*) i blant drwy Stryd Taf. Pam *lampshades*? Yn ogystal â bod yn athrylith gerddorol, doedd Morfydd ddim yn swil o arbrofi â ffasiwn ac fe wnaeth hi hyd yn oed wisgo *lampshade* fel het!

Mae uchafbwyntiau eraill yn cynnwys arddangosfa agored, arddangosfa gan fyfyrwyr ffasiwn PDC, perfformiadau am ddim gan y triawd gwerin VRi, a sgwrs gan yr arbenigwraig ar Morfydd Llwyn-Owen, Dr Rhian Davies, gyda chymorth y soprano byd-enwog Jessica Robinson a'i chyfeilydd Rhiannon Pritchard. Yn ogystal bydd gweithdai drymio i'r teulu, Cymanfa Ganu dan arweiniad Cath Woolridge ... a llawer mwy.

Gellir cael blas ar y ddarpariaeth o ddilyn y ddolen hon ar Facebook: Gwyl Morfydd Owen Facebook

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru